


The background image is a composite of two landscape photographs. The top half shows a clear blue sky above a distant horizon line with several wind turbines visible. The bottom half shows a rolling green landscape with a dirt path leading through fields, and a close-up of a pine tree branch in the foreground on the right.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Ydych chi'n parhau i dalu cyfraniadau pensiwn ar y tâl y byddwch yn ei dderbyn yn ystod absenoldeb yn gysylltiedig â phlant?	3
Yw eich buddion pensiwn yn cael eu heffeithio wrth fod ar absenoldeb yn gysylltiedig â phlant?	3
Cyfnodau o absenoldeb cyffredin ac ychwanegol	3
Cyfnodau o absenoldeb di-dâl ychwanegol	3
Absenoldeb gofal newydd-anedig	3
Sut ydych chi'n prynu'r pensiwn a gollwyd yn ôl?	4
Beth sy'n digwydd os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol?	5
Beth am ddyddiau 'Cadw mewn Cysylltiad'?	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	5

Rhagarweiniad

Mae'r daflen ffeithiau yn egluro sut fydd eich buddion pensiwn o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn cael eu heffeithio gan absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant a rennir, ac absenoldeb gofal newydd-anedig. Gelwir y rhain yn absenoldeb yn gysylltiedig â phlant yn y ffeithlen hon.

Ydych chi'n parhau i dalu cyfraniadau pensiwn ar y tâl y byddwch yn ei dderbyn yn ystod absenoldeb yn gysylltiedig â phlant?

Ydych, byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau ar unrhyw dâl statudol neu gytundebol y byddwch yn ei dderbyn yn ystod eich cyfnod o absenoldeb yn gysylltiedig â phlant.

Yw eich buddion pensiwn yn cael eu heffeithio wrth fod ar absenoldeb yn gysylltiedig â phlant?

Er mwyn deall yr effaith ar eich buddion pensiwn, rhaid i chi ddeall eich hawliau tâl ac absenoldeb. Dylech wirio hyn gyda'ch cyflogwr.

Cyfnodau o absenoldeb cyffredin ac ychwanegol

Ar gyfer cyfnodau o absenoldeb cyffredin (fel arfer y 26 wythnos gyntaf) neu unrhyw gyfnodau ychwanegol o absenoldeb (fel arfer ar ôl 26 wythnos a hyd at 39 wythnos) bydd eich buddion pensiwn yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy tybiedig a gyfrifir gan eich cyflogwr. Mae eich tâl pensiynadwy tybiedig yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy y byddwch yn ei dderbyn yn y tri mis (neu 12 wythnos os cewch eich talu'n wythnosol) cyn y cyfnod tâl lle mae eich tâl yn lleihau.

Trwy ddefnyddio eich ffigwr tâl pensiynadwy tybiedig er mwyn cyfrifo eich buddion pensiwn, ni effeithir ar eich pensiwn gan leihad yn eich tâl gwirioneddol a byddwch yn parhau i adeiladu eich pensiwn yn yr un modd a byddech wrth weithio a derbyn tâl llawn.

Cyfnodau o absenoldeb di-dâl ychwanegol

Ar ôl wythnos 39 a hyd ar wythnos 52 gallwch gymryd absenoldeb ychwanegol, ond bydd hyn yn ddi-dâl. Golyga hyn na ddefnyddir tâl pensiynadwy tybiedig ar gyfer y cyfnod di-dâl hwn ac ni fyddwch yn adeiladu unrhyw fuddion pensiwn yn awtomatig yn ystod y cyfnod hwn. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith bydd gennych y dewis i brynu'r pensiwn a golloch yn ystod y cyfnod hwn.

Absenoldeb gofal newydd-anedig

O 6 Ebrill 2025, mae absenoldeb gofal newydd-anedig bellach ar gael os oes ei angen. Mae hwn ar gyfer rhieni cyflogedig sydd â phlentyn/plant sy'n cael gofal newydd-anedig yn

dechrau o fewn 28 diwrnod ar ôl yr enedigaeth ac sy'n mynd ymlaen i dreulio saith diwrnod yn olynol neu fwy mewn gofal. Tra byddwch ar absenoldeb gofal newydd-anedig â thâl, byddwch yn dal i gasglu pensiwn drwy gydol eich absenoldeb â thâl, yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy tybiedig. Yn ystod absenoldeb gofal newydd-anedig di-dâl, byddwch yn gallu dewis prynu'r pensiwn rydych wedi'i golli.

Sut ydych chi'n prynu'r pensiwn a gollwyd yn ôl?

Mae prynu pensiwn yn ôl yn cael i wneud trwy fynd i gontract cyfraniad pensiwn ychwanegol. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith bydd eich cyflogwr yn rhoi manylion eich tâl pensiynadwy a gollwyd, ac yna bydd rhaid i chi gyfrifo faint fydd yn ei gostio i chi brynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl.

Defnyddiwch y gyfrifiannell cyfradd pensiwn ychwanegol ar-lein trwy fewnbynnu eich ffigwr tâl pensiynadwy a gollwyd a roddir i chi gan eich cyflogwr. Bydd y cyfrifiannell yn cyfrifo'r gost o brynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl:

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-lost-pension-calculator> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os ydych yn dewis prynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith, bydd y gost yn cael ei rhannu rhyngoch chi a'ch cyflogwr:

- byddwch chi'n talu traean o'r gost
- bydd eich cyflogwr yn talu dwy ran o dair o'r gost

Os ydych yn dewis prynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl fwy na 30 diwrnod ar ôl dychwelyd i'w gwaith, rhaid i chi dalu'r gost yn llawn.

Mae gan eich cyflogwr y disgresiwn i ymestyn y dyddiad terfyn 30 diwrnod. Cysylltwch â'ch cyflogwr i weld beth yw eu polisi ar hyn.

Mae gennych y dewis i brynu pensiwn a gollwyd yn ôl fel taliad untro (wedi'i dynnu o'ch tâl) neu yn fisol dros gyfnod o leiaf 12 mis. Os ydych chi'n dewis talu bob mis, efallai y bydd yn rhaid i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig, chi fydd yn gorfod talu am hyn, i dystio bod eich iechyd yn weddol dda.

Ar ôl i chi ddefnyddio'r cyfrifiannell tâl pensiynadwy ychwanegol ar-lein, os ydych yn penderfynu eich bod eisiau prynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl, dychwelwch eich ffurflen ar-lein wedi'i chwblhau i'ch cyflogwr. Bydd eich cyflogwr yn trefnu i'ch cyfraniadau gael eu tynnu o'ch tâl ac yn anfon ci o'r ffurflen i'ch cronfa CPLIL.

Os ydych yn dewis peidio â phrynu eich pensiwn a gollwyd yn ôl, bydd eich pensiwn a adeiladwyd yn ystod blwyddyn y cynllun a oeddech yn absennol yn llai o ganlyniad i hynny. Golyga hyn bod y pensiwn sy'n daladwy i chi pan fyddwch yn ymddeol yn llai. Gall hefyd effeithio ar y dyddiad y gallwch chi ymddeol a derbyn eich pensiwn heb eu lleihau cyn eich oedran ymddeol arferol.

Beth sy'n digwydd os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol?

Bydd unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yr ydych yn ei dalu, yn parhau i gael ei dynnu o'ch tâl yn ystod eich cyfnod o absenoldeb, cyhyd â'ch bod yn derbyn digon o dâl i dalu eich cyfraniadau. Os ydych chi'n talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar gyfer yswiriant bywyd ychwanegol, bydd yn rhaid i chi wneud y trefniadau angenrheidiol i barhau i dalu cyfraniadau ychwanegol yn ystod eich absenoldeb, i wneud yn siŵr nad yw'ch yswiriant yn dod i ben.

Os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol rheolaidd neu gyfraniadau pensiwn ychwanegol i brynu pensiwn ychwanegol, neu os ydych chi'n prynu blynnyddoedd ychwanegol, mae'n rhaid i chi barhau i dalu cyfraniadau yn ystod eich absenoldeb, neu mi fydd eich contract yn dod i ben.

Beth am ddyddiau 'Cadw mewn Cysylltiad'?

Mae dyddiau Cadw mewn Cysylltiad fel arfer ar gael yn ystod cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant. Maent yn eich galluogi chi i weithio uchafswm o 10 diwrnod a chael tâl yn ystod eich absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant. Mae unrhyw dâl y byddwch yn ei dderbyn am weithio diwrnod Cadw mewn Cysylltiad yn tynnu cyfraniadau pensiwn. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'ch cyflogwr.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@sirymfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.